



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



**Cefnogi plant sy'n derbyn
gofal i gyrraedd eu nodau
mewn addysg a dod yn
fwy uchelgeisiol**



Ymgynghoriad ar gyfer pobl ifanc



Mae Llywodraeth Cymru eisiau i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru gael uchelgeisiau a'r cyfleoedd gorau fel eu bod nhw'n gallu cyrraedd eu nodau.

Mae hyn yn cynnwys plant sy'n derbyn gofal.



Mae plant '**yn derbyn gofal**' pan mae cyngor yn cymryd cyfrifoldeb rhiant, fel eu bod nhw'n cael eu cadw'n ddiogel ac yn cael y pethau sydd eu hangen arnyn nhw.

Rydyn ni eisiau cefnogi plant sy'n derbyn gofal cymaint â phosibl.

I wneud hyn, rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau addysg yn cydweithio'n well.

Mae angen help ar bawb weithiau.



Mae'r llyfryn yma'n edrych ar ein cynllun newydd i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, ac ar y newidiadau rydyn ni eisiau eu gwneud.

Rydyn ni eisiau gwybod beth yw'ch barn chi ar hyn.



Ein nodau

Rydyn ni o'r farn y bydd y newidiadau yma:

- yn annog plant i fod yn fwy uchelgeisiol ac yn eu helpu nhw i gyrraedd eu nodau
- yn helpu pawb sy'n gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal i ddeall pa mor bwysig ydy'r rhan y maen nhw'n ei chwarae
- yn gwneud yn siŵr mai addysg sy'n dod gyntaf ym mywydau plant pan mae penderfyniadau a newidiadau'n cael eu gwneud
- yn defnyddio gwybodaeth i'n helpu ni i gynllunio'n well ar gyfer y dyfodol
- yn rhannu pethau sy'n gweithio'n dda i helpu gweithwyr proffesiynol i ddysgu'r naill oddi wrth y llall

Rhesymau dros y cynllun newydd

Ni ddylai cefndir unrhyw un fyth eu hatal nhw rhag gallu cyrraedd eu nodau.

Newidiadau rydyn ni eisiau eu gwneud

1

Rydyn ni eisiau cael arweinyddiaeth dda sy'n gweithio'n dda.

Mae yna lawer o weithwyr proffesiynol ar draws gwahanol wasanaethau sy'n cefnogi plant sy'n derbyn gofal, ac mae angen iddyn nhw ddeall y rhan y maen nhw'n ei chwarae.

Arweinyddiaeth yn Llywodraeth Cymru:

Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod yna gamau eglur a chynllun ar waith sy'n manylu ar beth y mae'n rhaid i bawb ei wneud i gefnogi plant sy'n derbyn gofal.

Byddwn ni'n:

- edrych ar gael person yn y cyngor sy'n gyfrifol am gefnogi plant sy'n derbyn gofal pan maen nhw mewn addysg. Rhith-bennaeth Ysgol ddylai fod yr enw ar y person yma
- gosod rheolau newydd ar gyfer Person Arweiniol Dynodedig pob ysgol (y person yn yr ysgol sy'n gwneud yn siŵr bod plant yn ddiogel) a llywodraethwyr ysgol
- gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol newydd i weld a oes yna ffyrdd i wella pethau i blant sy'n derbyn gofal



Arweinyddiaeth mewn cyngorau a chonsortia rhanbarthol:

(Yng Nghymru, mae adrannau Addysg o bob cyngor yn dod at ei gilydd i greu pedwar 'consortium rhanbarthol'. Mae Consortia Rhanbarthol yn gofalu am addysg pob dysgwr yn eu hardal.)

Y cyngorau yw'r prif rai sy'n rhoi cymorth i blant sy'n derbyn gofal. Rydyn ni eisiau iddyn nhw wneud yn siŵr nad oes yna unrhyw fylchau yn y cymorth y maen nhw'n ei roi.

Byddwn ni'n:

- gwneud yn siŵr bod yna un prif berson ym mhob cyngor sy'n gyfrifol am anghenion addysg plant sy'n derbyn gofal
- rhoi mwy o gymorth i fyrdau llywodraethu ysgolion
- edrych ar rôl y Cydgysylltydd Addysg (y person sy'n gweithio gyda phlant yn yr ysgol i lunio cynllun dysgu a chael cymorth iddyn nhw) a'r Person Arweiniol Dynodedig mewn ysgolion fel eu bod nhw'n gallu cydweithio a rhoi cymorth gwell i blant sy'n derbyn gofal
- cefnogi gofalcwyr maeth fel eu bod nhw'n meddwl mwy am addysg y plant y maen nhw'n gofalu amdanyn nhw

Arweinyddiaeth mewn ysgolion a cholegau:



Mae ysgolion yn gweithio'n agos â phlant sy'n derbyn gofal ac maen nhw'n hynod bwysig i'w helpu nhw i gyrraedd eu nodau.

Byddwn ni'n:

- gwneud yn siŵr bod gan bob ysgol a choleg brif lywodraethwr sy'n gyfrifol am gymorth i blant sy'n derbyn gofal
- gwneud yn siŵr bod ysgolion yn gweithio mewn ffordd sy'n helpu plant sy'n derbyn gofal i gyrraedd eu nodau



Cwestiwn

Ydych chi'n meddwl y bydd y newidiadau yma'n helpu i wneud yn siŵr bod yna arweinyddiaeth gref ac yn helpu pawb i ddeall eu rolau a'u cyfrifoldebau?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Sylw

2

Rydyn ni eisiau cael partneriaethau gwell sy'n cydweithio.

Mae angen i wasanaethau gydweithio ar gyfer plant sy'n derbyn gofal fel eu bod nhw'n gallu aros yn yr ysgol a'r coleg er mwyn cyrraedd eu nodau.

Rydyn ni eisiau:

- helpu gwasanaethau a sefydliadau i ddod at ei gilydd a siarad am sut gallan nhw weithio'n well
- gweithio gydag Estyn (arolygwyr ysgolion) i weld sut gallwn ni gefnogi plant sy'n derbyn gofal yn well fyth
- helpu mudiadau gwirfoddol i gydweithio â phob gwasanaeth
- helpu cynghorau ar draws Cymru i gydweithio a rhannu syniadau da ynglŷn â sut i weithio'n dda
- edrych ar bolisïau lleol i wneud yn siŵr eu bod nhw crystal â phosibl
- rhoi gwybodaeth i helpu gofalwyr a rhieni maeth i ddeall bod angen iddyn nhw weithio gydag ysgolion
- gwella'r ffordd y mae gwybodaeth yn cael ei rhannu fel nad oes yn rhaid i bobl ifanc ddweud eu bod nhw'n derbyn gofal pan maen nhw'n cofrestru yn y coleg

?

Cwestiwn

Ydych chi'n meddwl y bydd y newidiadau yma'n helpu i wneud yn siŵr bod gennym ni bartneriaethau gwell sy'n cydweithio'n well?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Sylw

3

Rydyn ni eisiau addysgu a dysgu da a chryf sy'n gweithio.

Mae addysgu ac addysg yn rhan fawr o wneud bywydau plant yn well. Mae llawer o ysgolion yn dda yn barod am gefnogi plant sy'n derbyn gofal, ac am ddiwallu eu hanghenion.

Rydyn ni eisiau:

- i ysgolion ddeall ei bod hi'n bwysig rhannu gwybodaeth
- i athrawon gael hyfforddiant fel eu bod nhw'n gwybod sut i gefnogi plant sy'n derbyn gofal yn well
- i ysgolion wella'u ffordd o weithio fel bod rhywun yn gwirio pob cynllun ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, ac yn eu newid lle bo angen
- i ysgolion gynnwys plant mewn gosod y targedau a'r nodau y maen nhw eisiau eu cyrraedd
- i ddisgyblion blwyddyn 11 gael ymweliadau â cholegau am y diwrnod fel eu bod nhw'n gallu cael mwy o wybodaeth am gyrsiau
- i ysgolion a cholegau rannu syniadau da ynglŷn â sut i weithio'n well a dysgu'r naill oddi wrth y llall

?

Cwestiwn

Ydych chi'n meddwl y bydd y newidiadau yma'n helpu i wneud yn siŵr bod yna addysgu a dysgu da a chryf sy'n gweithio?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Sylw



Mae ysgolion yn fwy na dim ond ffordd i gael graddau da; dylid gosod pob math o nodau a'u dathlu nhw pan maen nhw'n cael eu cyrraedd.

4

Rydyn ni eisiau defnyddio gwybodaeth yn well.

Mae'n bwysig rhannu gwybodaeth a chael gwybodaeth ddibynadwy oherwydd ein bod ni eisiau i bob plentyn a pherson ifanc gael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw, a hynny pan mae ei angen.

Mae angen gwybodaeth arnom ni fel ein bod ni'n gwybod lle mae angen mwy o gymorth ar wasanaethau cymdeithasol, beth sydd ei angen ar gynghorau, a beth y mae angen help ag ef ar blant sy'n derbyn gofal.

Byddwn ni'n:

- gweithio gyda gwasanaethau eraill i edrych ar sut mae gwybodaeth yn cael ei chasglu a'i hastudio
- gofyn i blant sy'n derbyn gofal beth yw eu profiadau nhw o addysg a gwasanaethau eraill
- rhoi'r wybodaeth yma at ei gilydd fel ei bod hi'n gallu ein helpu ni i gynllunio ar gyfer y dyfodol a'n helpu ni i wella



?

Cwestiwn

Ydych chi'n meddwl y bydd y newidiadau yma'n ein helpu ni i ddefnyddio'r wybodaeth sydd gennym ni yn well?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Sylw

5

Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod yr arian rydyn ni'n ei wario i gefnogi addysg plant sy'n derbyn gofal yn cael ei ddefnyddio'n well.

Rydyn ni'n rhoi arian i ysgolion i helpu plant a phobl ifanc sy'n wynebu tlodi, sydd â phroblemau neu sy'n derbyn gofal.

Byddwn ni'n:

- rhoi peth o'r arian yma i'r consortia rhanbarthol fel eu bod nhw'n gallu ei wario ar gymorth lle mae'r angen mwyaf amdano
- gwneud yn siŵr eu bod nhw'n gallu defnyddio'r arian yma i gefnogi plant ar ôl iddyn nhw gael eu mabwysiadu

?

Cwestiwn

Ydych chi'n meddwl y bydd y newidiadau yma'n ein helpu ni i gefnogi addysg plant sy'n derbyn gofal?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Sylw

6

Rydyn ni eisiau cynnwys mwy o blant sy'n derbyn gofal wrth lunio pob un o'n cynlluniau.

Mae'n hynod bwysig cynnwys plant a phobl ifanc mewn gwneud penderfyniadau ar gyfer gwasanaethau, ac mae'n rhaid i gynghorau wneud yn siŵr bod hyn yn digwydd.

Byddwn ni'n:

- cynnwys plant sy'n derbyn gofal a Voices from Care wrth lunio ein cynlluniau
- edrych ar ffyrdd gwell i gynnwys plant a phobl ifanc

?

Cwestiwn

Ydych chi'n meddwl y bydd y newidiadau yma'n ein helpu ni i gynnwys mwy o blant sy'n derbyn gofal wrth lunio pob un o'n cynlluniau?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Sylw





Cwestiwn

Ydych chi'n meddwl ein bod nid wedi gadael unrhyw beth pwysig allan o'r cynlluniau yma ar gyfer ein cynllun newydd?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Sylw



Diolch yn fawr am ddarllen hwn.



Anfonwch eich atebion i:

Tîm Dysgwyr Amrywiol a Diogelu
AdAS
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: LACstrategy@wales.gsi.gov.uk

erbyn 4ydd Mai 2015

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, yna cysylltwch â Deborah Campbell ar 02920 825807.